Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

# Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol CCAUC

## 2022/23

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

www.hefcw.ac.uk
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg | This document is also available in Welsh

## Cynnwys

**Rhagair** ... 2
**Adran 1 – Cyflwyniad** ... 3
**Adran 2 – Cynlluniau Ffioedd a Mynediad** ... 5
**2.1 Cyflwyniad** ... 5
**2.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2022/23** ... 6
**2.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau** ... 7
**2.4 Methiannau i gydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd** ... 7
**Adran 3 – Ansawdd Addysg** ... 8
**3.1 Cyflwyniad** ... 8
**3.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2022/23** ... 8
**3.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau** ... 9
**3.4 Methiannau i gydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd** ... 10
**Adran 4 – Materion Ariannol Sefydliadau Rheoleiddiedig** ... 11
**4.1 Cyflwyniad** ... 11
**4.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2022/23** ... 11
**4.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau** ... 12
**4.4 Methiannau i gydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd** ... 13
**Adran 5 – Datganiad Ymyrryd** ... 14
**Adran 6 – Datganiad Sicrwydd** ... 15

## Rhagair

Mae’n dda gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Rheoleiddio Blynyddol terfynol fel Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, sy’n nodi sut y gwnaethom gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio, yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23. Mae’r adroddiad hwn wedi cael ei gymeradwyo gan ein Cyngor yn dilyn craffu gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ein Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a’n Pwyllgor Rheoleiddio.

Mae ein pwerau rheoleiddio’n benodol ac yn gyfyngedig i rai agweddau ar weithgarwch sefydliadau rheoleiddiedig; felly ni allwn ond ymyrryd mewn materion sydd o fewn cwmpas ein swyddogaethau rheoleiddio. Wrth i ni gyflawni’r swyddogaethau hynny, rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda’r sector i wella arfer, gan barhau i herio a chefnogi sefydliadau rheoleiddiedig yn unol ag amcanion ein Strategaeth Gorfforaethol ac yn unol â’n dull rheoleiddio cyhoeddedig. Rydym yn cydnabod bod yr amgylchedd allanol y mae sefydliadau’n gweithio ynddo’n gryn her a rhaid i ni fod yn rhesymol yn ein camau gweithredu i ystyried hynny. Ond ar yr un pryd rydym yn cynnal ein ffocws ar warchod buddiannau myfyrwyr a’r buddsoddiad cyhoeddus mewn addysg uwch.

Bydd manylion y swyddogaethau rheoleiddio yr ydym wedi’u cyflawni ers 1 Awst 2023 yn cael eu nodi mewn adroddiad yn y dyfodol ond bydd yr adroddiad hwnnw’n cael ei gyflwyno gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd wrth iddo etifeddu ein dyletswydd i reoleiddio addysg uwch yng Nghymru. Bydd CCAUC yn cynnal goruchwyliaeth gadarn a thrylwyr tan yr adeg pan nad ni yw’r corff rheoleiddio mwyach, a byddwn yn galluogi proses esmwyth o ran pontio i’r Comisiwn. Rydym wedi gwahodd aelodau o Fwrdd y Comisiwn i fynychu cyfarfodydd ein Cyngor a’n pwyllgorau i alluogi’r broses bontio esmwyth honno a byddwn yn cynnwys disgwyliadau yn ein trefniadau a’n dull rheoleiddio a oleuir gan system reoleiddiol newydd Llywodraeth Cymru.



**Rob Humphreys**
Cadeirydd

## Adran 1 – Cyflwyniad

1.1 Cafodd Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015) gydsyniad brenhinol ar 12 Mawrth 2015, gan helaethu rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) fel corff rheoleiddio. Daeth Deddf 2015, a ategir gan chwe chyfres o reoliadau, i rym yn raddol yn ystod cyfnod pontio, a ddaeth i ben pan ddaeth y Ddeddf i rym yn llawn ar 1 Awst 2017.

1.2 Mae Deddf 2015 yn pennu dyletswyddau penodol i CCAUC yn y meysydd canlynol:
- Terfynau ffioedd myfyrwyr,
- Gwella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch,
- Ansawdd addysg,
- Materion ariannol.

1.3 Mae'n ofynnol i sefydliadau a reoleiddir o dan y Ddeddf gydymffurfio â chyfarwyddiadau CCAUC yn y meysydd hyn. Caiff ymreolaeth sefydliadol ei datgan yn eglur yn y Ddeddf ac mae dyletswyddau a phwerau ymyrryd CCAUC wedi'u cyfyngu i'r meysydd hynny sydd wedi'u pennu yn y Ddeddf yn unig, fel y'u nodir yn y paragraff uchod.

1.4 Nid yw pwerau CCAUC o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 o fewn cwmpas yr adroddiad hwn.

1.5 Un o'r disgwyliadau ar gyfer CCAUC yw ei fod yn darparu adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar y modd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn rhinwedd y Ddeddf ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Yr adroddiad hwn yw'r pumed i ni ei gyflwyno o dan y gofyniad hwn a bydd yn berthnasol i'r cyfnod adrodd rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023. Bydd swyddogaethau a gyflawnwyd ar ôl 31 Gorffennaf 2023, ond sy'n berthnasol i Gynlluniau Ffioedd a Mynediad blaenorol, yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau diweddarach.

1.6 Mae ein hadroddiad wedi'i lunio'n unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Y disgwyliadau a nodir yn y canllawiau yw bod yr adroddiad blynyddol yn cynnwys y canlynol:
- Esboniad o'r modd y mae CCAUC wedi cyflawni ei swyddogaethau o dan:
  a) Adran 7 – cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad,
  b) Adran 15 – monitro a gwerthuso cydymffurfedd ac effeithiolrwydd Cynlluniau Ffioedd a Mynediad,
  c) Adran 17 – asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig, ac
  d) Adran 31 – monitro cydymffurfedd â'r Cod Rheolaeth Ariannol.
- Canlyniadau'r gweithgareddau y bu CCAUC yn ymgymryd â hwy wrth gyflawni'r swyddogaethau a restrir uchod. Dylai hyn gynnwys crynodeb o'r canlynol:
  a) Ceisiadau am gynlluniau Ffioedd a Mynediad, eu cymeradwyo a'u gwrthod,
  b) Cydymffurfedd y sector rheoleiddiedig â therfynau ffioedd a gofynion cyffredinol Cynlluniau Ffioedd a Mynediad sydd wedi'u cymeradwyo,
  c) Yr adolygiadau asesu ansawdd a gynhaliwyd a chanlyniadau'r adolygiadau hynny
  d) Cydymffurfedd y sector rheoleiddiedig â'r Cod Rheolaeth Ariannol.

- Manylion unrhyw fethiannau gan sefydliadau rheoleiddiedig i gydymffurfio â gofynion y system reoleiddiol ac achosion lle mae CCAUC wedi defnyddio ei swyddogaethau ymyrryd o dan:
  a) Adran 11 – cyfarwyddiadau cydymffurfio ac ad-dalu,
  b) Adran 13 – cyfarwyddiadau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun Ffioedd a Mynediad a gymeradwywyd,
  c) Adran 19 – cyfarwyddiadau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol,
  d) Adran 20 – mesurau eraill mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol,
  e) Adran 33 – cyfarwyddiadau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod,
  f) Adran 34 – mesurau eraill mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod,
  g) Adran 37 – hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad newydd,
  h) Adran 38 – dyletswydd CCAUC i dynnu cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad yn ôl os nad yw sefydliad rheoleiddiedig yn bodloni gofyniad adran 2(3)[1] mwyach, ac
  i) Adran 39 – pŵer CCAUC i dynnu cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad yn ôl.
- Manylion y camau gweithredu y mae CCAUC wedi'u cymryd i ddatrys y methiant rheoleiddiol dan sylw a'r cynnydd a wnaed gan y sefydliad rheoleiddiedig o ran cymryd y cam gweithredu angenrheidiol; a
- Datganiad sicrwydd sy'n cynnwys trosolwg o gydymffurfedd y sector rheoleiddiedig â'r system reoleiddiol sydd wedi'i nodi gan Ddeddf 2015 ac yn tynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu risg.

1.7 Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro'n dair prif bennod er mwyn adrodd yn erbyn y meysydd hynny y mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl iddynt gael eu cynnwys: Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, ansawdd addysg a materion ariannol. Ceir Datganiad Sicrwydd hefyd ynghylch ein cydymffurfedd â'r system reoleiddiol.

1.8 Drwy'r adroddiad hwn i gyd byddwn yn cadarnhau a fu unrhyw fethiannau gan sefydliadau rheoleiddiedig i gydymffurfio â'r system reoleiddiol. Rydym wedi defnyddio tri dull eang er mwyn canfod a fu unrhyw fethiannau o ran cydymffurfio. Dyma'r tri dull:

- Hunan-adroddiadau gan sefydliadau rheoleiddiedig, boed hynny ar sail ad hoc neu drwy gylchoedd adrodd cynlluniedig,
- Cwynion a gafwyd trwy system gwynion CCAUC a sefydlwyd i wella ei rôl reoleiddio, a
- Gwaith monitro CCAUC, gan gynnwys yn ffurfiol trwy ymgysylltu â sefydliadau rheoleiddiedig, trafodaethau gyda chyrff allanol eraill neu fonitro systemau data.

Esbonnir y dulliau hyn lle y bo'n berthnasol ac yn ôl yr angen drwy'r adroddiad i gyd.

[1] Yn ôl Adran 2 (3) Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 mae'n rhaid i ymgeisydd am gynllun ffioedd a mynediad fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch, a rhaid iddo fod yn elusen.

## Adran 2 – Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

### 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae’n ofynnol i’r holl sefydliadau yng Nghymru sy’n dymuno cael eu rheoleiddio gan CCAUC gael cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad gan CCAUC. Mae dod yn sefydliad rheoleiddiedig yn galluogi myfyrwyr cymhwysol sy'n astudio cyrsiau israddedig a TAR SAC (Statws Athro Cymwysedig) amser llawn yn y sefydliad hwnnw i gael mynediad at gymorth i fyfyrwyr yng Nghymru. Mae Cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn nodi lefelau ffioedd sefydliadau ar gyfer darpariaeth israddedig a TAR SAC amser llawn am y flwyddyn academaidd y mae a wnelo’r cynllun â hi ac ymrwymiadau i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Wrth gyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad, rhaid i sefydliad ddangos ei fod yn ateb y gofynion rheoleiddiol sy’n gysylltiedig â sefydliad rheoleiddiedig, sef ei fod:

- yn sefydliad,
- yn gyfan gwbl neu’n bennaf yng Nghymru,
- yn darparu addysg uwch,
- yn elusen,
- yn hyfyw yn ariannol,
- yn cael ei reoli’n dda yn ariannol, ac
- yn darparu addysg o ansawdd.

2.1.2 Y sefydliadau â Chynllun Ffioedd a Mynediad presennol, ac sydd felly’n cael eu rheoleiddio gan CCAUC, yw:

- Prifysgol Aberystwyth,
- Prifysgol Bangor,
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd,
- Prifysgol Caerdydd,
- Grŵp Llandrillo Menai,
- Grŵp Colegau NPTC,
- Prifysgol Abertawe,
- Prifysgol De Cymru,
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a hefyd
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

2.1.3 Mae’r adran hon o’r adroddiad yn nodi sut y mae CCAUC wedi cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad hyd at 31 Gorffennaf 2023 gan gynnwys:

- Diwygio ei brosesau ar gyfer Cynlluniau Ffioedd a Mynediad,
- Cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad,
- Sicrhau y cydymffurfir â therfynau ffioedd perthnasol, a
- Monitro cydymffurfedd â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.

2.1.4 Fel a grybwyllwyd yn y cyflwyniad, rydym wedi diwygio ein prosesau rheoleiddio, gan gynnwys y rhai sy’n gysylltiedig â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad. Adlewyrchir hyn yn yr wybodaeth yr ydym yn adrodd arni isod.

## 2.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2022/23

2.2.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi sut y gwnaethom gyflawni ein holl swyddogaethau mewn perthynas â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, yn ogystal â sicrhau y cydymffurfir â lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

<u>Monitro a Gwerthuso Cynlluniau Ffioedd a Mynediad</u>

2.2.2 Rydym wedi ein sicrhau bod yr holl sefydliadau rheoleiddiedig wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â gofynion cyffredinol eu priod Gynlluniau Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, rydym wedi adnabod meysydd lle y mae gwelliant yn ofynnol.

2.2.3 Rydym yn cyflawni ein dyletswydd i werthuso cydymffurfedd â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad ac i fonitro eu heffeithiolrwydd trwy ffurflenni sicrwydd blynyddol, ymgysylltu sefydliadol, adolygu cwynion sefydliadau i CCAUC a dadansoddi data perthnasol gan gynnwys y data a ddelir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

<u>Meysydd ar gyfer gwella</u>

2.2.4 Rydym wedi annog sefydliadau i fod yn fwy penodol yn eu dogfennaeth ynglŷn â ble nad yw buddsoddiad wedi bod mor effeithiol ag a ragwelwyd a ble y gellir gwneud gwelliannau. Fe wnaethom hefyd nodi ein bod yn disgwyl i sefydliadau fynd ati mewn ffordd fwy gweithredol i amlygu defnydd effeithiol o fuddsoddiad, lle y bo'n berthnasol, ar ffurf astudiaethau achos.

2.2.5 Rydym wedi gwneud gwaith monitro ac ymgysylltu ychwanegol gyda phedwar sefydliad yng Nghymru lle'r ydym wedi adnabod, trwy ein gwaith monitro a gwerthuso, ei bod yn ofynnol cyflawni gwelliant pellach mewn perthynas â chadw myfyrwyr gan gynnwys y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

<u>Cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad</u>

2.2.6 Yn y cyfnod adrodd blaenorol fe wnaethom gymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad mewn deg sefydliad, a'r rheiny'n rhychwantu cyfnod o ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn nid ydym wedi cael unrhyw geisiadau am Gynlluniau Ffioedd a Mynediad. Roedd hyn i'w ddisgwyl.

<u>Cydymffurfio â lefelau ffioedd</u>

2.2.7 Ni all sefydliadau rheoleiddiedig ond codi lefelau ffioedd ar gyfer darpariaeth israddedig a TAR SAC amser llawn fel a nodir mewn Cynlluniau Ffioedd a Mynediad a gymeradwywyd gan CCAUC. Unwaith y mae Cynlluniau Ffioedd a Mynediad wedi cael eu cymeradwyo rydym yn rhannu manylion lefelau ffioedd a gymeradwywyd gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Mae lefelau ffioedd yn amrywio.

2.2.8 Rydym wedi monitro lefelau ffioedd ar gyfer darpariaeth israddedig a TAR SAC amser llawn a nodwyd yng Nghynlluniau Ffioedd a Mynediad 2022/23 trwy ddadansoddi data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r Asiantaeth Ystadegau

Addysg Uwch, unrhyw gwynion a gafwyd a thrafodaethau gyda sefydliadau rheoleiddiedig.

## 2.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

2.3.1 Mae'r is-adran hon o'r adroddiad yn nodi canlyniadau cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio fel y maent yn berthnasol i Gynlluniau Ffioedd a Mynediad. Mae'r adran hon yn cwmpasu canlyniadau cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad a'n gwaith i fonitro cydymffurfedd â lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.

Canlyniadau cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

2.3.2 Mae'r holl Gynlluniau Ffioedd a Mynediad a gymeradwywyd wedi cynnwys grwpiau a nodwyd fel rhai heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Mae sefydliadau'n nodi gwahanol grwpiau fel rhai heb gynrychiolaeth ddigonol yn ôl eu cenhadaeth a'u diben ac mae'r grwpiau a restrir isod yn arwydd o'r grwpiau a fydd yn cael eu cefnogi gan y buddsoddiad mewn cyfle cyfartal yr ymrwymir iddo mewn Cynlluniau Ffioedd a Mynediad:

- pobl o bob oed sy'n byw yn nau gwintel isaf yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru,
- pobl o bob oed o gymdogaethau â chyfranogiad isel yn y DU,
- pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal,
- pobl o bob oed â chyfrifoldebau gofalu,
- pobl o bob oed â nodweddion gwarchodedig,
- pobl o bob oed o gefndiroedd incwm isel, a
- phobl o bob oed sy'n dymuno astudio cwrs addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniadau monitro cydymffurfedd â lefelau ffioedd

2.3.3 O ganlyniad i gyflawni ein swyddogaethau i fonitro lefelau'r ffioedd a godir mewn sefydliadau rheoleiddiedig, nid ydym wedi canfod unrhyw ffioedd israddedig a TAR SAC amser llawn gormodol a godwyd gan sefydliadau rheoleiddiedig yn ystod 2022/23.

Canlyniadau monitro cydymffurfedd â gofynion cyffredinol Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

2.3.4 Nid ydym wedi canfod unrhyw achosion yn ystod 2022/23 lle mae sefydliad rheoleiddiedig wedi methu â chydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynllun Ffioedd a Mynediad y cytunwyd arno.

2.3.5 Yn 2022/23, ni chawsom unrhyw gwynion a oedd yn ymwneud â chydymffurfedd â gofynion cyffredinol Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.

## 2.4 Methiannau i gydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

2.4.1 Nid yw'r un sefydliad rheoleiddiedig wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â Chynllun Ffioedd a Mynediad. Felly, nid oes unrhyw achosion o ymyriadau i adrodd arnynt.

## Adran 3 – Ansawdd Addysg

### 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 O dan Ddeddf 2015, mae'n ofynnol i CCAUC asesu, neu wneud trefniadau ar gyfer asesu, ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru gan, neu ar ran, pob sefydliad rheoleiddiedig. Mae Deddf 2015 yn rhoi pwerau i CCAUC ynghylch darpariaeth sydd, neu sy'n debygol o ddod, yn annigonol, gyda digonolrwydd yn cael ei ddiffinio fel yr hyn sy'n diwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n cael yr addysg neu'n ymgymryd â'r cwrs.

3.1.2 Gall CCAUC gyhoeddi neu gymeradwyo canllawiau ynghylch gwella neu gynnal ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau rheoleiddiedig, ac ynglŷn â meini prawf ar gyfer asesu ansawdd. Cyn cyhoeddi neu gymeradwyo canllawiau o'r fath, rhaid i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig ac unrhyw bersonau eraill y mae CCAUC yn meddwl ei bod yn briodol ymgynghori â hwy. Roedd hi'n ofynnol i CCAUC sefydlu Pwyllgor Asesu Ansawdd hefyd dan Ddeddf 2015. Mae ein PAA wedi rhoi cyngor i'r Cyngor ar faterion a nodir yn yr adroddiad hwn fel y mae'n berthnasol i ansawdd.

3.1.3 Mae'r bennod hon yn nodi sut yr ydym wedi cyflawni ein swyddogaethau ansawdd yn ystod y cyfnod adrodd, hyd at 31 Gorffennaf 2023, yn ogystal â chanlyniadau'r swyddogaethau hynny i benderfynu a yw sefydliadau rheoleiddiedig wedi cydymffurfio â'r system reoleiddiol.

### 3.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2022/23

3.2.1 O dan Ddeddf 2015, mae'n ofynnol i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad rheoleiddiedig, ac unrhyw bobl eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn ei dyb ef, cyn cyhoeddi neu gymeradwyo canllawiau mewn perthynas ag ansawdd.

3.2.2 Mae'r adran hon yn nodi sut y mae ein swyddogaethau ansawdd wedi cael eu cyflawni yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23.

Adolygiadau allanol

3.2.3 Cafodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch gomisiwn gan CCAUC i gynnal adolygiadau sicrhau a gwella ansawdd allanol i ateb gofynion y Fframwaith Asesu Ansawdd. Diben yr adolygiadau hyn yw gwarchod budd y cyhoedd a sicrhau bod y safonau ansawdd yn ateb y gofynion rheoleiddiol sylfaenol.

Ymweliadau teirblynyddol

3.2.4 Fel rhan o gyfrifoldebau CCAUC dan y Fframwaith, mae CCAUC yn cynnal ymweliad sicrhau ansawdd teirblynyddol â phob sefydliad rheoleiddiedig ac yn adrodd ar ei ganfyddiadau. Mae hyn yn canolbwyntio ar faterion a gwmpesir gan y datganiadau sicrhau ansawdd blynyddol a lofnodir gan y corff llywodraethu. Rhoddwyd y cyfle i bob sefydliad yr ymwelwyd ag ef adolygu'r adroddiad o safbwynt cywirdeb cyn iddo gael ei ystyried gan y PAA a'i ddefnyddio gan Gyngor CCAUC fel rhan o'i Ymweliad Sefydliadol. Cafodd canlyniadau adolygiadau eu bwydo i mewn i

brosesau eraill CCAUC, gan gynnwys cynllunio ffioedd a mynediad a'r broses adolygu risg sefydliadol flynyddol.

Cwynion

3.2.5 Mae setiau data mewn perthynas â chwynion myfyrwyr a gyflëwyd i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) yn cael eu hystyried gan PAA CCAUC yn flynyddol, gyda materion yn cael eu codi gyda sefydliadau yn ystod ymweliadau sicrhau ansawdd teirblynyddol ac mewn gweithgarwch dilynol penodol gan CCAUC.

Ansawdd sy'n debygol o ddod yn annigonol

3.2.6 Rhoddodd PAA CCAUC gyngor ar faterion a oedd yn ymwneud â darpariaeth sydd, neu sy'n debygol o ddod, yn annigonol, yn unol â chyfrifoldebau CCAUC dan Ddeddf 2015, a rhoddodd gyngor i CCAUC fel oedd yn briodol. Roedd y rhain yn cynnwys dosbarthu canlyniadau arholiadau i fyfyrwyr, cydymffurfedd darpariaeth ACA â meini prawf achredu Llywodraeth Cymru, a chanlyniadau adolygiadau ansawdd. Fe wnaeth y PAA hefyd ystyried gwybodaeth gan sefydliadau am sut y maent yn rheoli achosion lle nad yw myfyrwyr yn ymgysylltu â'u hastudiaethau.

3.2.7 Fe wnaeth cyngor y PAA oleuo camau gweithredu gan CCAUC mewn perthynas ag un sefydliad, a arweiniodd at gynnal ymchwiliad i Bryderon gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar ran CCAUC; mae canlyniadau'r ymchwiliad hwnnw wedi cael eu cyhoeddi. Fe wnaeth yr ymchwiliad 12 o argymhellion yn seiliedig ar gasgliad bod materion difrifol wedi cael eu canfod. Mae cynllun gweithredu gan y sefydliad wedi cael ei gyhoeddi hefyd.

Newidiadau i'r Fframwaith Asesu Ansawdd

3.2.8 Yn 2022/23, fe ymgynghorodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ynghylch newidiadau i'r dull Adolygiad Gwella Ansawdd ar ran CCAUC, gyda hynny'n cael ei oleuo gan weithdai gyda'r sector a chyngor gan PAA CCAUC.

## 3.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

3.3.1 Mae'r adran hon yn nodi canlyniadau gweithgareddau a gynhaliwyd o ganlyniad i gyflawni ein swyddogaethau ansawdd i asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd mewn sefydliadau rheoleiddiedig.

3.3.2 Cafodd chwe adolygiad o sefydliadau rheoleiddiedig eu cynnal gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn 2022/23 a'u cyhoeddi ar wefan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Roedd canlyniadau'r adolygiadau hyn yn foddhaol.

3.3.3 Cynhaliwyd dau adolygiad ar gyfer goruchwyliaeth addysgol ac roeddent yn llwyddiannus.

3.3.4 Cynhaliwyd un ymweliad teirblynyddol yn 2022/23. Daeth CCAUC i'r casgliad, er bod prosesau a mecanweithiau ar waith er mwyn darparu peth sicrwydd ar gyfer CCAUC ynghylch materion sy'n ymwneud ag ansawdd a phrofiad myfyrwyr yn y sefydliad hwn, y byddai o fudd pe bai'r corff llywodraethu'n rhoi ystyriaeth bellach i nifer o feysydd.

3.3.5 Cymerodd CCAUC gamau gweithredu mewn perthynas ag ansawdd a oedd yn debygol o ddod yn annigonol mewn un sefydliad yn 2022/23.

3.3.6 Yn 2022/23 ni chafodd CCAUC unrhyw gwynion cymwys mewn perthynas ag ansawdd.

## 3.4 Methiannau i gydymffurfio â’r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

3.4.1 Ystyriwyd nad oedd unrhyw fethiannau i gydymffurfio â’r system reoleiddiol fel yr oedd yn berthnasol i ansawdd. Fe gynhaliodd CCAUC gyswllt â sefydliadau, ond ni fu angen iddo roi camau ffurfiol y datganiad ymyrryd ar waith.

## Adran 4 – Materion Ariannol Sefydliadau Rheoleiddiedig

### 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae Adran 27(1) Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC baratoi a chyhoeddi cod sy'n ymwneud â threfnu a rheoli materion ariannol sefydliadau rheoleiddiedig. Mae Adran 27(2) yn datgan y 'Caiff y Cod wneud darpariaeth ynghylch y materion a ganlyn (ymhlith materion eraill):

a) yr amgylchiadau pan fo sefydliad rheoleiddiedig i ymrwymo i drafodiad o ddosbarth a bennir yn y Cod gyda chydsyniad CCAUC yn unig,
b) trefniadau cyfrifyddu ac archwilio sefydliadau rheoleiddiedig, ac
c) darparu gwybodaeth i CCAUC.'

4.1.2 Mae Adran 27(4) Deddf 2015 yn mynnu bod rhaid i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig:

a) cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan y Cod, a
b) ystyried unrhyw ganllawiau sydd yn y Cod.

4.1.3 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi sut y gwnaethom fonitro cydymffurfedd â'r Cod yn 2022/23.

4.1.4 Fel a grybwyllwyd yn y cyflwyniad, rydym wedi parhau â phrosesau rheoleiddio diwygiedig, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â threfnu a rheoli materion ariannol sefydliadau rheoleiddiedig. Adlewyrchir hyn yn yr wybodaeth yr ydym yn adrodd arni isod.

### 4.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2022/23

<u>Monitro Ariannol</u>

4.2.1 Fe wnaethom waith monitro ariannol, gan gynnwys yr adolygiad o ddatganiadau ariannol a rhagolygon ariannol manwl pob sefydliad rheoleiddiedig. Yn y cyfnod adrodd, cafodd rhagolygon ariannol llawn eu dadansoddi tuag at ddiwedd haf 2022, ynghyd â phenawdau wedi'u diweddaru i adlewyrchu niferoedd gwirioneddol y derbyniadau myfyrwyr yn hydref 2022, a datganiadau ariannol archwiliedig tuag at ddiwedd 2022 ac yn gynnar yn 2023. Fe wnaethom ymgysylltu'n rheolaidd â Chyfarwyddwyr Cyllid, o leiaf yn chwarterol.

4.2.2 Fe wnaethom adolygu lefelau benthyciadau sefydliadau yn erbyn y trothwyon y cytunwyd arnynt a lle'r oedd sefydliadau'n dymuno ymrwymo i fenthyca y tu hwnt i'r trothwyon hyn fe gynhaliom ni broses ffurfiol a oedd yn golygu craffu ar sefyllfaoedd ariannol a phrosesau llywodraethu i benderfynu ynghylch priodoldeb cynigion.

4.2.3 Fe wnaeth CCAUC fonitro cwynion a gafwyd dan ei brosesau cwynion ynglŷn â gweithdrefnau sefydliadau lle gallent fod yn berthnasol i gydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol.

<u>Adolygiadau Risg Sefydliadol</u>

4.2.4 Trwy ein proses Adolygu Risg Sefydliadol (ARS) fe gynhaliom ni asesiadau risg ffurfiol, chwemisol o sefydliadau rheoleiddiedig. Defnyddiwyd amrywiaeth o wybodaeth a gafwyd o'r ffurflenni data diweddaraf ac ymgysylltiadau'r Cyngor a

swyddogion â sefydliadau i gynnal asesiad risg o bob un yn erbyn chwe maes allweddol – Llywodraethu a Rheoli; Sefyllfa Ariannol; Cyfeiriad Strategol; Ymchwil a Throsglwyddo Gwybodaeth; Myfyrwyr ac Ansawdd; ac Ystadau. Cynhaliwyd asesiad risg ar y cyfan a ddefnyddiwyd i roi sgôr 'Isel', 'Cymedrol' neu 'Uchel' i bob sefydliad o ran y risg yr oedd yn ei hwynebu. Mae'r diffiniadau o'r categorïau risg hyn fel a ganlyn:

- Risg Isel: Mae'r sefydliad yn annhebygol o fethu â chydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol.
- Risg Gymedrol: Mae'r sefydliad wedi methu, neu fe allai fethu, â chydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol dros y tymor byr a chanolig, ond nid yw effaith hyn yn arwain at bryderon ynghylch cynaliadwyedd dros y cyfnod hwnnw.
- Risg uchel: Mae'r sefydliad wedi methu, neu mae'n debygol o fethu, â chydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol dros y tymor byr a chanolig, ac mae effaith hyn yn arwain at bryderon ynghylch cynaliadwyedd dros y cyfnod hwnnw.

4.2.5 Fe gynhaliom ni ARS llawn yn hydref 2022, gyda'r canlyniadau'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Rhagfyr 2022 a'r Cyngor ym mis Ionawr 2023. Cynhaliwyd ARS interim yng ngwanwyn 2023, gyda chanlyniadau'r ARS llawn yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mehefin 2023 a'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2023.

4.2.6 Canlyniadau'r asesiadau ARS a gynhaliwyd gan CCAUC yn ystod y cyfnod adrodd oedd:

- bod un sefydliad yn wynebu risg Uchel ar y cyfan yn ôl yr asesiad;
- bod pedwar sefydliad yn wynebu risg Gymedrol ar y cyfan yn ôl yr asesiad, a
- bod pum sefydliad yn wynebu risg Isel ar y cyfan yn ôl yr asesiad.

4.2.7 O ganlyniad i'n hasesiadau risg, fe wnaethom gynyddu lefelau ymgysylltu â Phenaethiaid ac Uwch Dimau Rheoli'r sefydliadau hynny a gafodd sgôr a oedd yn dynodi risg 'Uchel' a risg 'Gymedrol', er mwyn cael sicrwydd bod y materion a achosodd ein pryderon yn cael sylw ar frys ac mewn modd priodol.

4.2.8 Hefyd, mae gan y Cyngor gyfres o gyfarfodydd sefydliadol ffurfiol sydd wedi hen ennill eu plwyf lle mae aelodau'r Cyngor a swyddogion yn cwrdd â phob sefydliad o leiaf unwaith bob tair blynedd, sy'n rhoi cyfle pellach i drafod materion strategol gyda llywodraethwyr ac uwch reolwyr. Ymwelwyd â dau sefydliad rheoleiddiedig yn 2022/23.

<u>Cod Rheolaeth Ariannol</u>

4.2.9 Mae'r Cod Rheolaeth Ariannol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC adolygu'r Cod yn gyson ac, os yn briodol, paratoi a chyhoeddi Cod diwygiedig. Fe adolygwyd y Cod yn 2022/23 ac ni nodwyd unrhyw ddiwygiadau.

## 4.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

4.3.1 Mae'r adran hon yn nodi canlyniadau ein gwaith i fonitro cydymffurfedd â'r Cod yn y cyfnod adrodd.

4.3.2 Cawsom ein sicrhau bod pob sefydliad wedi cydymffurfio â'r gofynion ariannol a nodir yn y Cod. Cawsom y sicrwydd hwn trwy ymgysylltu a chraffu.

4.3.3 Ni chynhaliom ni unrhyw adolygiadau o geisiadau i gynyddu lefelau benthyca yn 2022/23. Fe wnaethom leihau terfynau benthyca ar gyfer un sefydliad i adlewyrchu cyfleuster a oedd wedi mynd yn ddi-rym.

4.3.4 Yn 2022/23, cafodd CCAUC un gŵyn ffurfiol ac nid oedd y gŵyn hon o fewn ein cylch gwaith.

## 4.4 Methiannau i gydymffurfio â’r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

4.4.1 Ni chafwyd unrhyw achosion lle’r oedd ymyrraeth ffurfiol mewn perthynas â methiant i gydymffurfio, neu debygolrwydd o fethiant i gydymffurfio, â’r Cod yn ofynnol yn ystod y cyfnod adrodd.

## Adran 5 – Datganiad Ymyrryd

5.1 Mae Datganiad Ymyrryd llawn yn ei le. Mae'r Datganiad yn amlinellu pwerau ymyrryd CCAUC dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

5.2 Mae'r Datganiad Ymyrryd yn cael ei adolygu'n gyson gan Bwyllgor Rheoleiddio CCAUC. Mae agweddau i'w gwella yn y Datganiad wedi cael eu hadnabod ond nid ydynt yn achosi newid perthnasol i'r sail y gallwn reoleiddio arni ac ni fyddant yn cael effaith berthnasol ar bolisi'r Llywodraeth. Yng ngoleuni bwriadau i ddiddymu CCAUC fe gytunwyd felly na ddylid gwneud y gwelliannau hyn ar yr adeg hon ond y dylent gael eu hystyried, yng ngoleuni trefniadau ar gyfer pontio i'r system reoleiddiol newydd a fydd yn seiliedig ar Gofrestr, gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd pan gaiff ei sefydlu.

## Adran 6 – Datganiad Sicrwydd

6.1 Mae'r adran hon yn darparu datganiad sicrwydd blynyddol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC neu'r Cyngor) i Lywodraeth Cymru ar gydymffurfedd sefydliadau rheoleiddiedig â'r system reoleiddiol a sefydlwyd gan Ddeddf 2015 ac yn amlygu unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu risg.

6.2 Asesiad y Cyngor yw, ar draws y sector rheoleiddiedig, bod cydymffurfedd sefydliadau â'r gofynion rheoleiddiol a osodwyd gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 wedi bod yn foddhaol at ei gilydd. Lle canfuwyd materion penodol yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Cyngor wedi mynd ar eu trywydd yn drylwyr gyda'r sefydliadau dan sylw, fel a nodir uchod.